



Colofn Ddŵr oddiar Bae'r Tri Clogwyn, Gŵyr tua 5.30 pnawn dydd Sul y 7ed Awst 2011 tra bu terfysg, glaw trwm a chenllysg yn y cyffiniau.

Tynnwyd y llun gan Steve Pleydell ac fe'i cyhoeddwyd yn y Western Mail ar 9 Awst (cyhoeddwyd yma gyda chaniatad)

'Y Drych Cristionogawl'

RHIWLEDYN yw'r enw cywir ar yr hyn a elwir yn Trwyn y Fuwch, y Little Orme, sef y cyfan, ac mae sôn mai mewn ogof ar greigiau Rhiwledyn yr argraffwyd, yn anghyfreithlon, y llyfr Cymraeg cyntaf 'Y Drych Crisionogawl' ym 1587 oedd yn rhoi gwybodaeth i Gatholigion. Ogof Ty'n Graig yw un o'r lleoliadau posib. Dyma ychydig nodiadau a baratowyd ar gyfer Dechrau Canu dechrau Canmol: **y sefyllfa yn y wlad** – haf a hydref 1586 – amser anodd i Gatholigion Pam? Cynllwyn Babington i roi Mari brenhines yr Alban ar yr orsedd yn lle Elisabeth wedi methu. Catholigion yn cael eu herlid o'r herwydd Arloesi tua 1587! – argraffu'r llyfr cyntaf yng Nghymru **Y Cymeriadau**: Robert Puw o Blasty Penrhyn Creuddyn, ei gefnder Huw Thomas – o Chwitfordd William Davies offeiriad crefyddol a ferthyrwyd ym Meumaris ym 1593. Ganwyd yng Nghroes Eirias (ble mae Parc Eirias heddiw) yn fab i delynor adnabyddus Roger Thackwell – argraffydd o Sais ac o leiaf bedwar arall na wyddys eu henwau **Eu tasg** – i argraffu 'Y Drych Crisionogawl' o waith Griffith Robert, Milan. **Beth oedd y llyfr?** Roedd mewn tair rhan yn rhoi gwybodaeth am y ffydd Gatholig i'r Cymry. Dim ond y rhan gyntaf a gyhoeddwyd – llyfr maint poced o 180 o dudalennau Yn rhy beryglus i wneud y gwaith yn y plasty, Penderfynu sefydlu'r wasg mewn ogof ym mhenrhyn Rhiwledyn - a buont yno am dros hanner blwyddyn. Meddylwch am eu problemau – dim ond o'r môr roedd yn bosib mynd i'r ogof! Eisiau cario'r offer mewn cychod heb i unrhyw un eu gweld - y wasg argraffu bren, yr inc, y papur, coed i lorio'r ogof, bwyd etc. Gorffennwyd printio'r rhan gyntaf yn Chwefror 1587 - yr unig gopi perffaith yn y Llyfrgell Genedlaethol. Y 14eg o Ebrill, 1587– Dydd Gwener y Groglith Problem! Darganfuwyd yr ogof a'i chwmni gan weision yr Ustus Heddwch lleol – Syr Thomas Mostyn o Gloddaeth. Fe osodwyd gwarchae ar yr ogof gan dros 40 o ddynion Mostyn, ond roedd amynt ofn ymosod ar yr ogof! Buont yn gwyllo'r lle dros nos, ond erbyn y bore roedd y Catholigion i gyd a'u hoffer wedi dianc, er fe ddaliwyd Roger Thackwell rai misoedd yn ddiweddarach!



Sut oedd hi'n bosib iddynt ddianc gydag ond un fynedfa? Doedd neb wedi gwyllo'r ogof yn ofalus iawn! Dywedir am Mostyn *"a man not very rigid against Catholics"* Fe wnaeth Ustus Heddwch arall – Dr William Griffith o Gaernarfon ysgrifennu llythyr cas at Archesgob Caergaint i gwyno am ddiolfalwch Thomas Mostyn. Llythyr William Griffith yw prif ffynhonnell ein gwybodaeth am y wasg. Mae son hefyd bod John Penry yn cwyno am y driniaeth dyner gafodd *"knave Thackwell...which printed popish and traitorous Welsh books in Wales"* gan yr awdurdodau wedi iddo gael ei ddal. Daliwyd William Davies yng Nghaergybi ym 1592 pan oedd ar groesi'r môr i'r Iwerddon gydag ymgeiswyr clerigaidd ar eu

ffordd i Valladolid yn Sbaen. Fe roddwyd sawl cyfle iddo newid ei ddaliadau crefyddol ond ni wna'i ildio. Bu mewn sawl carchar ar wahân i Fiwmaris (Ludlow a Bewdley) cyn cael ei anfon yn ôl i Fôn. Roedd yna lawer o gydymdeimlad â'i achos yn lleol, ond yn y diwedd fe'i deddfrydwyd i gael ei grogi ar y 27ain o Orffennaf 1593. Doedd neb lleol yn fodlon gwneud y gwaith, a bu'n rhaid cyflogi dau ddyn o Gaer ar gost uchel.

Gareth Pritchard

Pigion o'r Papurau Bro



Dymchwel Siop Thomas Davies (Ffon Tom, Deganwy) ym 1927 (o'r wefan History of Deganwy)

elwid yn 'Ffon Tom'. 'Roedd yr eli'n gwella pob math o anhwylderau gan gynnwys 'stiffdra' a chryd cymalau - dyna sut y cafodd yr enw! Neu, tybed oes yna esboniad arall am yr enw 'Ffon Tom' ar y fan arbennig yma? [Mae Gareth yn gofyn tybed oes gan rywun dun o'r eli gwrthiol?]

Gareth Pritchard

Y gannwyll frwyn

Pennill o waith y diweddar Evan Evans Nant Melai, yn dweud sut i wneud kannwyll frwyn:

Hel brwyn, rhyw ddyrnaid

A'u blingo gan adael cynhaliath

Yna eu tynnu trwy ferwedig wer dafad

A'r kannwyll frwyn fydd yn ganlyniad.

Diolch i Mrs Eirwen Johnson, Abergele, [gynt o Wytherin] am anfon y bennill uchod at y Bedol

Porth Rhwydwaith Bioamrywiaeth Genedlaethol (Prydain)

Cafodd gwaith safoni enwau a thermâu Cymdeithas Edward Llwyd ei gydnabod ar lefel uwch erbyn hyn gyda chyhoeddi enwau Cymraeg anifeiliaid asgwrn cefn, planhigion, gwyfynod, gloynnod byw a gweision neidr ar wefan porth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Genedlaethol (National Biodiversity Network). Meddai'r rheolwr Charles Hussey o'r Natural History Museum yn Llundain: "You can tell the Welsh World that they can use Welsh names to search the NBN Gateway <http://www.searchnbn.net>". Felly, os ydych am gael llwyth o wybodaeth am rywogaeth arbennig fel llygad y dydd *Bellis perennis*, cewch fewnbynnu'r enw Cymraeg a chael, yn ôl y wefan: *Grid map of records for Bellis perennis*, *Interactive map of records for Bellis perennis*, *List of sites for Bellis perennis*, *Interactive map of records for Bellis perennis a Taxonomic and designation information for Bellis perennis*. Ymlaen mae Canaan!

Gwern Uffern!

Gwern, (*alder, alder marsh*) turns up in a swear word: Gwern Uffern! (*The marsh of hell*) which gives a peculiarly Celtic feel for a place of eternal damnation, damp and cold, in contrast with the hot burning fires of hell of Middle east inspiration!

Brynach Parri ar flog Brecknok Place-Name Society

Ymhelaethodd Brynach mewn ebost i Llên Natur: "mae'n cyfateb i 'Bloody hell!' yn Saesneg, sef yn mynegi arswyd, ond mae'n ddarluniol iawn. Mae ar lafar gan yr hen do yma ym Mrycheiniog, ac rwyf wedi ei glywed hefyd gan fenyw o Faesteg, sydd heb unrhyw gysylltiadau a'r parthau 'ma. Ychwanegodd Twm Elias: "Mae'n atgoffa i o'r disgrifiad o un o dreialon / temptasiynnau Cristion [Taith y Pererin], pan gafodd ei ddal yng Nghors Anobaith!"

Gwialen fedw

Fe wnaeth fy nhad wneud gwialen fedw i mi pan o'n i tua 10 oed - am fy mod i'n ddiawl bach drwg (bryd hynny!): swp o frigau bedw wedi eu clymu efo'i gilydd yn y top oedd hon, tua 2 - 3 troedfedd o hyd. Dim ffon, neu mi fuasa honno wedi gadael marc / clais. Mi oedd cael dy daro efo'r wialen ar dy goesau noeth yn brifo yn ofnadwy, ond ddim yn gwneud niwed i'r croen. Mi fuasa brigau coed eraill yn gwneud y job, ond y fedwen yw'r un sy'n rhoi brigau main, tenau, sy' ddim yn niweidio'r croen. Gwneud un fyddai'r peth hawsaf, a rhataf, ar gyfer arddanghosfa: swp o frigau (tebyg i ysgub), wedi eu clymu efo'i gilydd efo llinyn yn un pen, fel ei fod yn ffitio yn gyfforddus yn y llaw. Yna chwilio am hogyn drwg / hogan i weld os ydi'r wialen yn gweithio! (peidiwch a poeni, jôc ydi hynna!)

Twm Elias

O'r Dyddiadur

Arwyddion cyntaf y micsi

Bwlchtocyn 15 Awst 1954

Sul neis ers tro byd. Gweld gwningen efo clwy arni am tro cyntaf ar Tanllech.

Bwlchtocyn 2 Medi 1954

Claddu dau gwpl heddiw eto. Da iawn cael eu difa nhw.

Bwlchtocyn 4 Medi 1954

Cawod bach ganol dydd, od o braf wedyn. Claddu cwningod 9 cwpl.

Bwlchtocyn 18 Medi 1954

Oen lleia i fwrdd heddiw. Pwysu dros 60 pwys. Od o dda o'i oed. Braf iawn, sychu fawr iawn chwaith. Claddu 8 a hanner cwpl.[cwningod]

Dyddiadur JO Jones, Crowrach, Bwlchtocyn, Llŷn. Gyda diolch i deulu R.G.Williams.

Un diwrnod o haf - a chips Aberdyfi!

Ty Crwn, Bodorgan, Môn 28 Gorffennaf 1961

Braf. Tori o amgylch Cae Bob Stymia

Elin Jones

Cerrigydrudion 28 Gorffennaf 1961

Diwrnod braf. Dyddiaduron John Hugh Jones.

Pontllyfni, Caernarfon 28 Gorffennaf 1961

Cymylog hyd amser cinio, haul & chwmwl wedyn.

Dechrau chwynnu mefus y cefn

Dyddiadur Eric Jones (Siop Cymraeg Caernarfon) Wenllys, Pontllyfni

Bermo 28 Gorffennaf 1961

the weather has been grand except for today when we went on our excursion to Aberdovey. Aberdovey is a horrible place and there is only a few shops and NOT 1 chippy. They don't have chippies because they can't abide the smell of chips.

cerdyn post

21 Medi 1949: maen mellt, Y Prince Llywelyn, Beddgelert

Poplysen ddu dyffryn Anafon



I've found one of the loneliest black poplars in the north growing next to a small hafod (Hafod y Gelyn) above Mountain Gate on the way up to Llyn Anafon SH676 713. Huge birch tree there too - is gelyn a mutation of celyn?

David Thorpe, Clwt y Bont

Is gelyn a mutation of celyn? meddai David

Meddai'r Athro Hywel Wyn Owen:

One is quite right to draw attention to the problem of lenition, that celyn 'holly' would remain as such in 'y celyn' 'the holly'. However, we must allow for perception to trump rules of grammar. If people thought it was gelyn 'enemy' then it would be likely to be a strong influence on local pronunciation. I have a similar example in Denbighshire, the present Tafarnygelyn (SJ1861). There was an inn there in the 17th century, probably with the common inn-sign denoting a holly, and a toll gate (Tafarn y Celin Gate 1795). No doubt the animosity to turnpikes provided the motivation to see this as the enemy (gelyn). By 1838 it was Tafarn-gelyn, and the 1983 Tafarn-y-Gelyn. Intriguingly, the predisposition to see it as gelyn had also occurred before the turnpike for reasons unknown to us today: Dafarn gelin 1680-1. But there can be little doubt the the inn-sign was of a holly and not an enemy.

This information is to be had in our Dictionary of the Place-Names of Wales s.v. Tafarnygelyn.

Clywais sawl gwaith hen bobl Abergwyngregyn yn dehongli Hafod y Gelyn fel "hafod rhag y gelyn" (Gol.)

Taglys arfor

The stretch of white sand known as Coilleag a' Phrionnsa - the prince's strand - lies baking in the afternoon sun. Behind the beach, on a grassy slope is a cairn. Built by the children



of Eriskay school, it commemorates an event that places Eriskay at the centre of British history, for here in July of 1745 Prince Charles Edward Stuart first set foot on Scottish soil at the start of his ill-fated attempt to claim the throne. Here too can be found the pretty pink-and-white striped sea bindweed. It is not native to the Outer Hebrides, and aside from Eriskay it is only recorded at one other site on the islands. Legend has it that the plant first grew from seeds that fell from the

*prince's pocket. True or not, it is known in Gaelic as the "prince's plant".*Christine Smith Guardian Country Diary 15 Gorff 2011

A dyma'r map yn dangos ei ddosbarthiad. Wel, ia, mae'r planhigyn yn gyfyngedig i Eriskay ar yr Ynysoedd Heledd. Ond mae ffordd arall o ddehongli'r dosbarthiad - sef bod y planhigyn yn cyrraedd ei bwynt mwyaf gogledd - orllewinol yno ac yn methu mynd dim pellach oherwydd yr hinsawdd. Dewisiwch chi



O'r post

Braf ydi gweld trafodaeth am enwau lleoedd mewn ardaloedd mwy Seisnigedig. Dyma ohebiaeth ddiweddar gan y Brecknock Place-Name Society:

Cyllie Farm - nearby but actually 200yds into Carmes (SN 764140) - is this tree-related? There are references to Pen yr Helyg, Derlwyn Isaf and Waun y Ddraenen in the immediate area.

Alan Bowering

Os mai collen, ll. cyll (y goeden) sydd yn fan hyn, onid rhyw fath o luosog dwbl ydyw? DB

I was confused by 'double plurals' when I went to live in West Wales (Trelech a'r Betws), where 'ty' was 'teie' in the plural, but it does co-incide with a Breconshire term for 'outhouses', viz 'teie maas', even though 'tai' is normal plural for houses, even in Brecknock....Another tree name that strikes me as having different plural forms is onnen - ashtree - which is normally 'ynn' in the plural (double n, unusually, to distinguish it from the ubiquitous 'yn'), but which occurs here in Brecknock (but only the south east corner, the Silurian bit around Crickhowell) as a stream name Onneu, and in other bits of the border as Onney.

Brynach Parri

Grawnffrwyth a statinâu

Patrick Barkham asks why sales of grapefruit are in decline despite his own heavy consumption of the "forbidden fruit tree" (In praise of grapefruit, G2,13 July). I suspect the answer is simple. The fruit is forbidden to those millions of us who are on statins for our cholesterol.

llythyr oddiwrth Paul Harris London Guardian 15 Gorff 2011

Traeth Lafan 28 Medi 1685

We passed over Penmaenmawr at the foot of which on this side I met Lord Bulkeley's coach and servants, but they told as they had escaped very narrowly being cast away in coming over the (Beaumaris) ferry, and that the winds were so high that it was not fit for us to attempt that way

Lord Clarendon: Trans AAS&FC 1961

26 Medi 1938: cymryd rhyfel yn ganiataol..Haf Bach Mihangel

Pôs y mis beth yn union yw hwn?



Mae'r ateb i'w gael yn **ORIEL** gwefan Llên Natur. Tocyn Llyfr £10 i'r sawl sydd yn cynnig yr ateb cywir trwy **CYSYLLTWCH** ar y wefan cyn 15 Medi (cofiwch ychwanegu eich cyfeiriad post).

Bryan Jones Llangamarch enillodd y Pôs mis diwethaf gyda'i gapsiwn: Go dda iel!-ymbarel a cafn o fwyd. Tocyn £10 i Bryan!

Nigen dywyll oerllyd.

O ddyddiadur Edward Evans Parsele, Treletert, Sir Benfro 8 Rhagfyr 1851: Rewodd rhyw ychydig neithiwr - y gwynt yn esmwyth o'r Dwyrain Dde. Yr entrych yn gryn glir: rhai cymylau llaith a chawsai ei symud o'r Gorllewin: Torid yr entrych gyda'r nos gan ryw **nigen Dywyll oerllyd** yr hon a symudai. Gwynt - nad oeddwn Ddim yn sicr.

Fe wn yn iawn beth mae'n ddisgrifo. Nid nigen fydden ni yn ddefnyddio ond allaf i ddim cofio yn iawn beth fydden ni yn eu ddweud. Yr oedd yn wahanol i 'niwl'. Rhywbeth ar lawr oedd 'niwl' ond roedd y peth arall yma bob amser yn y nen. Am hyn wyf yn meddwl bob amser pan glywaf eiriau Rhys Nicholas "Roedd yr awel neithiwr yn finog oer / a llithrai dieithrwch tros wedd y lloer"

Eddie Jenkins, Penuwch

Carreg Samson




Ar ôl Carreg y Dreiglwyd ddiiflanedig (rhifyn 42) dyma Garreg Samson - am ryw hyd beth bynnag.

Meddai Gwyn Williams: "Dyma faen dyfod o Oes y Rhew - ger Borth y Gest. Carreg drawiadol iawn - ac mae posib mynd oddi tanddi - ac allan y pen arall". Oes yna lôn gwerin neu hanesion morol amdani tybed? Yn ôl Tom Jone, enw arall arni yw Carreg Simsan.

Ffenoleg y mwyar duon

Dyma'r holl gofnodion ("hel mwyar duon" - "picking blackberries) hyd yma. Os oes dau gofnod yn y flwyddyn yna cymerir y cyntaf yn unig. Mae'r patrwm yn drawiadol -



rydym yn ymddangos yn hel mwyar duon yn gynt heddiw na chanrif yn ôl. Mae cofnod 1940* [saeth melyn] yn torri'r patrwm: Dyma'r cofnod hwnnw:

9 Awst 1940 Rhoddais y rhan fwyaf o heddiw i gasglu mwyar duon gyda fy mrawd a'i fachgen bach pedair oed. Cawsom fasedaid lawn, oddeutu saith pwys. Yr oedd cyfraniad y bychan yn llawer mwy i'w gylla nag i'r fased. Tystia ei wefysau a'i dafod i hynny.

Dyddiadur y Parch JR Richards XM12309

Dewch â mwy o'ch cofnodion "dyddiadau hel mwyar duon" i ni gadarnhau ai patrwm ynteu hap sydd yma. Cawsom ein bagiad (eitha pitw) cyntaf ni ar y 14 Awst eleni yn Llanrug. Meddai Huw Holland Jones: 1940 was a good summer over Wales & Eng. June was very sunny (311hrs sun at Holyhead) & dry (19mm), July had av rain & above av. sun. Aug was very dry with av sun..so I suspect the early warmth & sun brought on the blackberries and the July rain helped them swell. I think blackberries seem to be ripening later in the last 5 summers (5 poor summers in a row), because my memory is of first blackberries usually appearing by end July.



Pryfed hanner dydd yn meddwi ar fwyar duon 31 Awst 2009 yn ardal Llanfaglan DB

It is Mesembrina meridiana, a common muscid, breeds in dung.

John Bratton

Llythyr yn Y Cymro gan Machraeth mewn ymateb i golofn Llên Natur yn yr un papur yr wythnos flaenorol

Chwiliwch am DRONWY (Daronwy) a GLASLYN (aber yr afon Alaw, Môn) efo'u gilydd yn y Dyddiadur i weld cofnodion Robert Bulkeley.

Pysgota â rhwyd fawr ym Mhwll Glaslyn

Annwyl Olygydd, Digwydd edrych ar hanes Daronwy, Llanfachraeth, yn *Y Cymro* heddiw, yr 8fed o Orffennaf a wnes i, ac wedi edrych ar y llun o Bwll Glaslyn lle arferem fynd i bysgota â rhwyd fawr gyda dynion o'r ardal tua 74 i 75 mlynedd yn ôl.

Fe adeiladwyd un llong nid nepell o'r fan ac mae'r ffaith honno wedi ei chofnodi yn y llyfr "Atlas Of Anglesey". Nid oes gofnod o enw'r llong dim ond cofnod yn

dweud i un llong gael ei hadeiladu. Roedd yr hen ffordd i Gaergybi yn mynd heibio i Bwll Glaslyn a chyn cyrraedd y man hwnnw yn mynd trwy ran o dir yr Erw Fawr ger Llanfachraeth lle y bwm yn byw pan oedd fy nhad yn cadw pentriaeth i'r diweddwr William Evans, Mynydd y Gof, Bodedern.

Mae'r pwll gryn bellter o Daronwy ond heibio hwn y marchogai'r bonheddwr Buckley ar ei deithiau i rai o dafarndai Caergybi ac i fannau

eraill o'r dref.

Yr oedd tair carfan o'r Buckleys. Yr oedd y garfan gyntaf ym Miwmares a'r ail garfan yn Llanfechell. Y drydedd garfan oedd yn Llanfachraeth.

Heb os mae'r rhamant trosodd - a heno

Mewn Henaint mae'n anodd I'r ifanc gofto rhywfodd Ond i mi fe gafwyd modd Machraeth, Bodffordd

